"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

GOLYGYDD—

Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D., Trebanos

PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA"

CYFROL XLIV.
1944.

Llandyssul :
Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer.

CYNNWYS

A ellir ei ddysgu oddiwrth ein heglwysi yn Lloegr, 145.
Adolygiadau, 16, 24.
Ap Cledlyn, 37.
Atyniad crefydd ryddfrydig, 153, 164.

Barddoniaeth—
Cofio Mrs. Tydfil M. Jones, 35.
Cywydd gofyn am ysgrifennydd i Gymru, 92.
Deml, Y, 107.
Glust, Y, 44.
Gwely Cydwybod, 60.
Heddwch, 51.
I Iesu, y gŵr ifanc, 28.
Rwsia, 108.
Tân mawn, 135.
Tractor, Y, 137.
Twmpath Brwyn, 151.

Breuddwyd Ifan bach, 160.

Briwsion Mathias—
Adeilad ar dywod, 98.
Aros, 71.
Cofio rhyfel, 167.
Dod a mynd, 47.
Eisiau, 20.
Gemau Doethineb, 36.
Gweddi'r Orsedd, 122.
Gwneud ei ran, 152.
Help llaw, 86.
Pibonwy, 11.

Caniadaeth y cysegr, 77.
Canmlwydd, 103.
Canmlwydd cyfraith, 125.
Cofnodion y Pwyllgor, 27, 137.
Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, 121, 138, 162.
Crefydd rheswm, 111.
Cynghrair y gwragedd, 12, 34, 72.
Cyrddau blynyddol, 136.
Cyrddau chwarter Caeronnen, 73.
Cyrddau'r hydref, 33.

Darlun—
Parch. H. H. C. Jones, B.A., Y.H., *wyneb* 93.

Daliadau'r Undodiaid, 176.
David Davies, 30.
Dinistr Essex Hall, 142.
Drifftio, 8.
Dwy stori mewn rhigwm, 13.
Dyletswydd, 157.
Dysgu'r plant bach i weddio, 34.

Eglwys a'i chenhadaeth, Yr, 17.
Eguyddorion yr Undodiaid, 60.
Evans, Dr. Thomas, 103.

Ffenestr, O'r, 45.
Ffordd newydd, 38.

Gohebiaethau—
Esbonio'r Beibl, 91.
Esiampl gwerth ei ddilyn, 105.
Ffordd i ladd yr eglwysi, 168.
Perchi, 91.
Perchi ac addoli Duw, 105.
Sylwadau T.O.W., 155.
Tri "anffyddwyr," 138.
Yr utgorn a rydd sain anhynod, 168, 183.

Golwg ar bethau i ddod, 109.
Gronfa newydd, Y, 144.
Gwerth esiampl dda, 21.
Gyfraith Iddewig, Y, 134.
Gymanfa ganu, Y, 104.
Gymdeithas gyffredinol, Y, 99, 130.

H.H.C., 95.
Hanes Undodiaeth, 1.
Hwnt ac ymâ, 56.

Jones, Y diweddar Barch. H. H. C., 93.

Maes llafur yr ysgol Sul, 52, 63, 183.
Magwyrydd candryll, 84.
Marwgofion, 14, 27, 40, 58, 74, 87, 106, 123, 139, 170, 185.
Meddyliau byw, 29.
Meddyliau crwydrad, 9.

Neges, Y, 141.
Newid, Y, 48.
Nodion yr eglwysi, 15, 28, 43, 59, 76, 89, 107, 124, 140, 156, 171, 187.

Pleser a dyledswydd, 12.
Postcript y golygydd, 90, 124.
Priodasau, 27, 39, 74, 87, 122, 139, 156, 170.
Pwrpasau bywiol Duw, 162.

South East Wales Unitarian Society, 50.

Twm Shon Cati, 82.

Undodiaeth : ein eglwysi a'r dyfodol, 120.

Weinidogaeth, Y, 127.

Ymadrodd rhyfedd, 62.
Y Nadolig yng Nghwrt Arthur, 173.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xliv. IONAWR, 1944. Rhif 1.

Hanes Undodiaeth.

[Parhad o Rifyn Tachwedd, 1943].

6. Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, digwyddodd Troad Allan y Piwritaniaid o Eglwys Loegr. Y mae'r eglwysi hynaf, sydd yn awr yn Undodiaid, yn ddyledus am eu cychwyn a'i traddodiad i hyn.

Olrhain rhai o'n heglwysi eu gwreiddiau yn ôl i flynyddoedd canol yr eilfed ganrif ar bymtheg. O'r rhain yr oedd rhai yn Fedyddwyr Cyffredin, eraill yn Gynulleidfaolwyr. Yn ddiweddarach ychwanegwyd ychydig yn rhagor o'r Bedyddwyr Cyffredin.

Cychwynnodd y mwyafrif o'r eglwysi hynaf, sydd yn awr yn Undodiaid, fel canlyniad Troad Allan 1662. Yn y flwyddyn honno ymadawodd tua 2,500 o weinidogion Eglwys Loegr, chwarter y cyfanswm, o'u bywiolaethau, ac fel y gallent fod yn ffyddlon i'w cydwybod peidiasant a bod yn weinidogion. Yr adeg hynny yr oedd gan ein hynafiaid y gwroldeb i wynebu tlodi, a bod yn ddigartref, ac yng ngharchar yn eu penderfyniad i ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddyn. "O, Syr," meddai cydoeswr, y mae llawer dyn heddiw'n gwneud rhwyg fawr yn ei gydwybod, a ellwch chwi ddim torri rhic fach yn eich cydwybod chwi?" Am lawer o flynyddoedd dioddefasant erlid llym. Torrwyd eu cyfarfodydd addoli gan filwyr, dirwywyd a charcharwyd hwy. Dymunasai Pepys, yn ei ddyddiadur, iddynt fod yn "more wise or not be catched."

Dyma amser y moldio a roes ei ddelw i'n traddodiad. Mewn amseroedd o straen angherddol a phrofedigaeth fel y rhain, pan mae gwŷr a gwragedd yn gorfod rhoi i fyny eu hargyhoeddiad neu bopeth arall, gwneir cyfnewidiadau creadigol mawr. A gall traddodiad a ffurfiwyd mewn un cenhedlaeth barhau i reoli bywyd dynion am ganrifoedd er da neu er drwg.

Yn fynych camddeëllir pa fodd y tarddodd eglwysi Undodaidd o'r cynulleidfaoedd a sefydlwyd fel canlyniad y Troad Allan. Ar y pryd nid oeddynt yn Undodaidd. Ni ddatblygodd pob un ohonynt yn y ffordd yma. Ar un adeg yr oedd 1800 o gynulleidfaoedd anghydffurfiol. Dim ond tua 150 o'r rhain yn Lloegr a Chymru a ddaeth yn Undodaidd. A hynny nid oherwydd iddynt gael gafael yn agos i dri chant o flynyddoedd yn ôl ar beth y mae ychydig wedi gafaelyd ynddo eto, fod sefydlu Eglwys ar sylfaen credo yn angau i fywyd ysbrydol. Y mae'r Gwŷr a Drowyd Allan yn hynafiaid i'r Undodiaid, nid oherwydd fod dynion wedi dysgu dim oddiar hynny, ond oherwydd iddynt eu gosod ar y ffordd iawn y gallent gerdded ar hyd-ddi ymhellach.

Gellir dweud fod Richard Baxter (1615—1691), y mwyaf ohonynt yn cynrychioli'r teip. Cyfunodd ef a hwy gywirdeb meddyliol, digyffelyb ag angerdd dros achub eneidiau. Cyfunodd ef a hwy raddau anarferol wroldeb ac eangder meddwl, manyldeb heb benboethni, defosiwn dwys a meddwl byw. Hyd yn oed wrth ddioddef eu troi allan yn hytrach na bod yn anonest, hiraethent am gael eu cyfrif yn yr eglwys. Hyd yn oed wrth ddioddef erlid ni chredent fod y gwirionedd i gyd gyda hwy a dim gyda'u herlidwyr. Y mae hyn yn beth digymar bron. Hiraethent am Eglwys lydan a chynhwysfawr, er hynny nid oeddynt yn barod i'w phrynu ag anonestrwydd meddyliol.

Gan lawer a ddaeth ar eu hôl wrth geisio gwirionedd newydd dangoswyd yr un gwroldeb ag a ddangoswyd ganddynt hwy yn eu tystiolaeth i'r gwirionedd.

7. *Yn y ddeunawfed ganrif aeth rhai o ddisgynyddion y gwyr a drowyd allan ymlaen at Undodiaeth ac ymunodd ychydig o rai eraill o Eglwys Loegr a hwy.*

Y Troad Allan (1662) oedd y cam cyntaf. Yn union fe aeth rhai ymhellach. Dysgasant wrthod clymu barn eu pregethwyr a'u hathrawon. A'u llygaid yn fwy agored troisant i'r Ysgrythurau er mwyn chwilio allan eu cynnwys, er iddynt gael hyd yn oed y cynnwys hwnnw yn anghytuno a'r credoau. Am amser daliasant i'w derbyn fel y dystiolaeth i sylfaenu arni eu syniadau, ond defnyddiasant eu *deall* cyn tynnu ohonynt eu casgliadau o'r dystiolaeth. Yn y ffordd hon daethant yn hereticiaid ar fater y Drindod. Gelwid ffurf eu heresi yn Ariaeth. Ni allent mwyach dderbyn y syniad cyffredin am yr Iawn, a oedd mewn gwirionedd yn foesol isel ac yn ddiraddiol mewn ysbryd. Yn y cysylltiad hwn y mae llyfrau Dr. John Tayler *Original Sin* (1740) a *Atonement* (1751) yn amlwg eu pwysigrwydd.

Dechreuasai'r Feirniadaeth Uwch (Higher Criticism) ar ei gwaith, a dinistriwyd y syniad am anffaeledigrwydd yr Ysgrythur, ac yn ddiweddarach arweiniodd hyn i wrthod pob awdurdod allanol. Yr oedd pob datblygiad newydd yn gymorth i eraill. Yma a thraw byddai'r syniad Ariaidd yn rhoi lle i syniad a fyddai'n cydnabod dyndod cyflawn Iesu.

Ni ddigwyddodd y datblygiadau hyn heb derfysg. Mewn cymhariaeth rhan fach o'r cynulleidfaoedd a gerddodd rhagddynt. Aeth rhai ohonynt yn dawel o un gradd i radd arall ; eraill yn unig wedi storm a straen. Mewn llawer achos ymrannodd cynulleidfa, ac ymneilltuodd rhan ohoni.

Yn yr Iwerddon yn 1726 ffurfiwyd Henaduriaeth Antrim (henaduriaeth wahanedig) ar y sylfaen o beidio a thanysgrifio i gredoau. Cadwodd yr Undodiaid yn yr Iwerddon at drefn eglwysig yr Henaduriaid.

Gellir cymryd Joseph Priestley (1733-1804) fel y ffigur mwyaf amlwg yn y cyfnod hwn. Enillodd enwogrwydd fel darganfuwr ufelai (oxygen), ond un ymhlith llawer o ddiddordebau oedd ei arbrofion gwyddonol. Yr oedd yn arloesydd hefyd yn ei dderbyniad o safbwynt hanesyddol i ystyried problemau diwinyddiaeth. Yr oedd ei deimladau politicaidd a chymdeithasol mor wresog fel y llosgwyd ei eglwys a'i dŷ yn amser y Chwyldro Ffrengig, a chroesodd yntau'r môr i'r America. Oddiar hynny codwyd llawer cofgolofn er mwyn ei anrhydeddu.

Yn y ffordd y datblygodd ef gwelir crynhodeb o gyfnewidiadau'r amser. Dechreuodd ei fywyd yn Annibynwr, daeth yn Arminiad, yna yn Ariad ac yn un a goleddai fod yr ewyllys yn gaeth i ddylanwadau allanol (determinist), wedyn daeth yn gredwr yn nyndod syml Crist ond parhaodd i gredu yn y gwyrthiau a ddisgwyliai am yr Ail-ddyfodiad.

Yn ymyl Priestley rhaid gosod ei ffrind, Theophilus Lindsey (1723-1808). Am lawer o flynyddoedd bu Lindsey yn weinidog anarferol o ffyddlon yn Eglwys Loegr. Yn wahanol i lawer o glerigwyr a gyfnewidiodd ei syniadau, rhoes ei fywioliaeth i fyny ac ymneilltuodd. Ac yntau'n dyfalu beth ydoedd y peth iawn, daeth ar draws darn o hanes y Gwŷr a drowyd allan, ac ymddangosai iddo'n gyfarwyddyd golau. Dywedodd un cymeriad yn y ddeunawfed ganrif pe bai iddo gyhoeddi hanes y Gweinidogion a drowyd allan byddai'r demtasiwn yn fawr iddo osod Mr. Lindsey ar y rhestr, er iddo ei lusgo "gerfydd ei ben a'i ysgwyddau."

Yn 1744 agorodd Lindsey y capel Undodaidd cyntaf yn Lloegr, yn Essex Street, Llundain. Y mae'r adeilad yn awr yn brifswyddfa'r Gymdeithas Gyffredinol, ac ar ei ôl ef yr enwyd ei Gwasg, y Lindsey Press.

Yn awr daeth y ddwy ffrwd, oddifewn ac oddiallan i'r Eglwys, at ei gilydd gan wneuthur un newydd.

8. Canlyniad hyn oedd cyfnod o weithgarwch cenhadol a threfnu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

DECHREUODD cyfnod o weithgarwch mawr. Yn 1791 sefydlwyd yr Unitarian Society for Promoting Christian Knowledge. Yn 1806 sefydlwyd yr Unitarian Fund er mwyn danfon cenhadon drwy'r wlad. Yn 1813 cyfreithlonwyd coleddu Undodiaeth trwy ddiddymu'r Deddfau erlidiol. Yn 1819 sefydlwyd yr Unitarian Association for the Protection of the Civil Rights of Unitarians. Yn 1825 unwyd yr Unitarian Association a'r Unitarian Society a'r Unitarian Fund er mwyn ffurfio'r British and Foreign Unitarian Association i'r diben o hau egwyddorion Undodiaeth Gristnogol.

Sefydlwyd eglwysi newyddion. Cyfarfyddir â Bedyddwyr Undodaidd. Yn canlyn ymwahaniad ymhlith y Methodistiaid Wesleaidd yr oedd mudiad o Undodiaid Methodistaidd.

Nid oedd y gweithgarwch newydd hwn heb ei beryglon, mewnol ac allanol. Yn fewnol, yr oedd y perygl gwirioneddol o wneud derbyn athrawiaeth ddiwinyddol arbennig yn sylfaen y ffywyd eglwysig. O'r perygl hwn achubwyd y mudiad, yn rhannol trwy i'r rhai a foldiwyd yn yr hen draddodiad ei wrthsefyll, yn rhannol trwy berygl newydd. Cynhyrfodd y gweithgrawch hwn ymgais i ddwyn oddiar yr Undodiaid yr hen gapeli yr oedd Undodiaeth wedi datblygu ynddynt, ar y tir fod coleddu'r fath syniadau'n anghyfreithlon pan godwyd yr adeiladau hyn, ac am hynny ni allent fod yn feddiant i Undodiaid. O'r diwedd trechwyd yr ymosodiad hwn trwy ddeddfu'r Dissenters' Chapels Act, 1844. Yr oedd y perygl hwn yn rhybudd effeithiol yn erbyn gallu'r llaw farw, ac o'r amser hwn gellir dweud i'r Undodiaid gydnabod y Tryst Agored fel amod anhebgor eu bod.

Bob blwyddyn bron ychwanegwyd eglwysi newyddion. Daeth trosodd y Christian Brethren, gwahaniad o'r Methodist New Connection. Yn yr Iwerddon ffurfiwyd y Remonstrant Synod of Ulster yn 1830. Ymhlith yr arloeswyr yng ngwaith yr Ysgol Sul yr oedd yr Undodiaid, ac yn 1833 sefydlwyd y Sunday School Association. Bu cynnydd mawr yn y tasc o greu cyfryngau i'r eglwysi hyn er mwyn cyd-weithio. Cychwynnwyd amryw gyfnodolion, yn eu plith yr *Inquirer* (1842) a'r *Christian Life* (1876), yn awr yn unedig, a ddaeth yn llais answyddogol y mudiad. Yn 1884 sefydlwyd y National Conference of Unitarian, Liberal Christian Free Christian, Presbyterian, and other Non-subscribing or Kindred Congregations a unwyd yn 1928 â'r British and Foreign Unitarian Association er mwyn ffurfio'r General Assembly of Unitarian and Free Christian Churches.

Y tri coleg y paratoir ynddynt y rhan fwyaf o'r myfyrwyr ar gyfer y Weinidogaeth Undodaidd yw'r Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin ; Manchester College, Oxford : a'r Unitarian College, Manchester. Olrhain y ddau gyntaf eu llinach i'r digwyddiadau a ddilynodd Troad Allan 1662. Symudwyd Manchester College i Lundain yn 1853, ac wedi hynny i Rydychen yn 1889. Sefydlwyd yr Unitarian College, Manchester yn 1854 fel yr Unitarian Home Missionary Board.

9. Daeth i ddynion ar yr un pryd ddealltwriaeth newydd am natur y bywyd crefyddol.

Cyfnod o ddatblygiad anarferol o gyflym oedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid yn unig mewn peiriannau ond hefyd ym mhethau'r ysbryd. Yr oedd yr Undodiaid yn rheng flaenaf y cyfnod.

Ymddengys llawer o'u gwaith yn negyddol. Rhaid ydoedd wrth eu cynorthwy i ddinistrio'r syniadau amrwd ac isel am yr Iawn, Cosb Dragwyddol a Phechod Gwreiddiol, ac am y Gwyrthiau a goleddid yn gyffredinol y pryd hynny. Poenus ond angenrheidiol oedd eu gwaith. Y mae'n anodd credu heddiw fod dynion wedi ymdrechu mor benboeth ac mor ddiegwyddor dros yr athrawiaethau hyn.

Tu cefn i'r gwaith negyddol y mae ffydd gadarnhaol. O gam i gam daethant i weld mai yn y gydwybod, yn enaid a meddwl dyn, yn ei gymundeb a Duw y mae sedd yr awdurdod mewn crefydd, a gwelsant fod y darganfyddiad hwn yn gogoneddu Duw a dyn. Yr enwau mawr yw William Ellery Channing (1780—1842), Ralph Waldo Emerson (1803—1882) a Theodore Parker (1810—1860) yn yr America, a James Martineau (1805—1900) yn Lloegr.

Yn yr America yr oedd y datblygiad yn debyg i'r un yn Lloegr, ond mewn rhai ffyrdd yn fwy rhydd ac i raddau'n gyflymach oherwydd nad oedd yr un rhwymau'n dal y bobl yn ôl. Mewn ffaith sefydlwyd yr American Unitarian Association yn yr un flwyddyn (1825) a dim ond ychydig oriau o flaen y British and Foreign Unitarian Association, ac mewn anwybodaeth o'r peth.

Dylanwadodd gweithiau Channing, Emerson, a Parker yn fawr iawn ar y wlad hon. Mewn un flwyddyn, 1869, gwerthwyd yn Lloegr 21,000 o gopïau o weithiau Channing. Yr oedd Parker yn rhy bell o flaen ei oes i fod yn dderbyniol i lawer Undodwr yn ei ddydd. Ond lledaenwyd ei weithiau gan y Gymdeithas, nid heb anghytundeb er hynny. Ac ato ef y mae'r ugeinfed ganrif yn troi

am gyfarwyddyd. I'r mwyafrif y mae ef yn fwy adnabyddus trwy ei emyn, "O Thou Great Friend to all the Sons of Men."*

Yn Lloegr y mae James Martineau yn sefyll allan fel yr arweinydd crefyddol a gynorthwyodd i ddarganfod "Sedd Awdurdod mewn Crefydd" yng nghydwybod, enaid a meddwl dyn

Cynorthwywyd y cyfnewid gan gynnydd Uwch-feirniadaeth (Higher Criticism) a darganfyddiadau gwyddonol. Symudid athrawon a ddysgai Uwch-feirniadaeth o'u swyddi. Difenwid y gwyddonwyr a goleddai athrawiaeth Datblygiad. Ond aeth y gwaith yn ei flaen. Ymhlith yr ychydig bobl grefyddol a roes groeso i'r darganfyddiadau hyn yr oedd yr Undodiaid. Hwy oedd y cyntaf i sylweddoli cysylltiadau ysbrydol y ffaith o ddatblygiad, er na ddilynwyd yn llwyr eto ei holl gymhlethiadau.

Rhaid fod dadleuon ac anghytuno os ydyw meddwl ac ysbryd yn barhau'n fywiog. A llanwant le mawr yn hanes yr amseroedd hyn. Ond ar yr un pryd aeth y gwaith o ddyfnhau'r bywyd crefyddol yn ei flaen. Y mae'r emynau poblogaidd o waith cymaint o Undodiaid yn profi hyn. Yn fuan ar ôl ei gilydd dilynodd llyfrau emynau newydd yn yr ymdrech i gyfateb addoliad a'r cyfnewidiadau ym myd meddwl. Tuedd llyfrau emynau ydyw cadw yn fyw hen syniadau diwinyddol yn hir wedi iddynt beidio â bod yn ysbrydiaeth, oherwydd y cysylltiadau a'r teimladau sydd wedi tyfu o'u hamgylch.

Digwyddai cyfnewidiadau cymdeithasol mawr, ac nid oedd yr Undodiaid yn ofni gweithredu ar y gwirionedd yr oedd ganddynt wroldeb i'w ddarganfod.

O'r ymdeimlad dyfnach fod Duw'n ei datguddio ei hun mewn dyn, hanfod y datguddiad Cristnogol, y tarddodd y parch newydd tuag at ddyn, a'i gwnaeth yn beth amhosibl mwyach dderbyn cyflyrau cymdeithas a oedd yn ddiraddiol. Yn yr America bu strygl ynglyn â'r cais i ddiddymu caethwasanaeth. Gwnaeth Channing a Parker eu rhan yn rhagorol. Y Parker a fu'n helpu'r caethion ffo, yn wyneb cyfraith ddrwg, i ddianc oedd Parker, yr arweinydd crefyddol.

---

*O Thou great Friend to all the sons of men,
Who once appeared in humblest guise below,
Sin to rebuke, to break the captive's chain,
And call thy brethren forth from want and woe.

We look to Thee : thy truth is still the light
Which guides the nations groping on their way,
Stumbling and falling in disastrous night,
Yet hoping ever for the perfect day.

Yes ! thou art still the Life ; thou art the Way
The holiest know ; Light, Life and Way of heaven !
And they who dearest hope, and deepest pray,
Toil by the light, life, way, which thou hast given.

Yn Lloegr yr oedd y gwaith yn llai cyffrous ac yn gofyn am gynheddfau gwahanol. Nid oedd y rhain yn eisiau. Yn fwy na neb amlygodd yr Undodiaid ddiddordeb mewn Addysg ac mewn Llywodraeth leol. Ond yn bwysicach nag unrhyw gyfraniad arbennig mewn diwygio cymdeithas yw eu cyfraniad mewn caritor. Heb garitor mewn arweinwyr byddai'r ddynoliaeth yn hir yn dyrfa ddilywodraeth. Ac yn yr eithaf ni all arweinyddiaeth barhau heb ffydd yn Nuw a dyn, a honno wedi gwreiddio'n ddwfn.

10. Nid yw'r anturiaeth eto wedi gorffen.

ANIAN bywyd ydyw. Nid yw ymgeisiadau dwysaf dyn i fynegi rhywbeth am natur realiti yn ddim ond symbolau amherffaith o rywbeth sy'n galw byth a beunydd ar i ddyn fynd rhagddo, ond y mae byth a beunydd yn osgoi ei afael. Er hynny y mae yna angen, a hwnnw yn ei wthio i geisio mynegi mewn rhyw ffordd ei ymdeimlad o'r realiti sylfaenol hwn. Ac wrth geisio hynny y mae dyn yn cael ei fod yn offeryn pwrpas mwy nag ef ei hunan.

Felly y creir ffurfiau a sistemau gweledig y byd cyfnewidiol yr ydym ni'n byw ynddo. Ond yn yr ymdrech i greu'r pethau hyn y mae dyn ei hunan yn gwisgo amdano'i hun bersonoliaeth ac yn dod yn fwy gwybodus am y mawredd sy'n ei amgylchu. Ni all aros yn fodlon ar ei gyraeddiadau. Rhaid iddo o hyd gychwyn ar anturaiethau newydd a mwy. Ymddengys hyd yn oed yr hen gyraeddiadau, sy'n colli eu hystyr pan dderbynir hwy fel pethau terfynol, o werth fel rhan o fywyd.

Ac felly ymhob cenhedlaeth rhaid fod rhyw ychydig yn mynd o flaen y lleill, yn paratoi'r llwybrau iddynt droedio ynddynt ac yn eu hysbrydoli â'r gwroldeb i gefnu ar hen dyniadau wrth alwad bywyd. Canys "ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust ac ni ddaeth i galon dyn y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai sydd yn ei garu ef." Er hynny ar bob cam o'r ffordd bydd dynion yn cael, os byddant ffyddlon i'w gweledigaeth ac yn ymddiried ynddi hyd yr eithaf, fod rhywbeth rywfodd yn y Cyfanfyd yn ateb eu hangen. A'r rhywbeth hwn yw'r Ysbryd sy'n "cyd-dystiolaethu a'n hysbryd ni ein bod ni yn blant i Dduw."

(*Diwedd*).

[Cyfiiethiad o bamffled y Parch. R. V. Holt, M.A., B.Litt., Rhydychen.]

Drifftio.

Gan y Parch. J. H. Coram Davies, B.A.

Tachwedd 1926, dadlwytho'r cargo ym Muenos Ayres a chael gorchymyn i hwylio i lawr yr afon i godi llwyth yn Ensenada, porthladd La Plata. Nid oedd gwmwl yn yr wybren, a'r agerlong yn gwneud deg *knot* i gyfeiriad angorfa mewn man na ellid dibynnu arno, lle yr oedd y gwaelod yn dywod ac yn llaid, rhyw filltir o'r tir o Ensedana. Ym Muenos Ayres daeth peilot sianel, dyn o Roegwr, i'r llong, ac yn awr arwyddodd i'r meistr roi'r gorchymyn "Stand By" ar deligraff ystafell y peiriannau. Yna, un ar ôl y llall, daeth y gorchymynion, "Half Speed Ahead," "Slow," "Stop." Y peiriannau'n arafu, a'r llong eto'n symud yn rhy rwydd, daeth y gorchymyn "Full Speed Astern." Crynodd y llong drwyddi, a chlywid clonc angor yn cael ei bwrw. Bu raid bwrw angor arall cyn cael mesur gweddol o ddiogelwch. Yn lluniaidd, gan ddangos ei thaldra mawr am nad oedd gargo'n ei gwasgu i'r dwr, trodd y llong ei phen blaen i'r cerrynt. Wedi iddo gyflawni ei ddyledswydd disgynnodd peilot y sianel yr ysgol Iacob i'r cwch a oedd yn ei aros. Gorfu i ninnau aros rhai oriau cyn i beilot y porthladd ddod i'n harwain o'r angorfa i'r man lle yr oeddym i godi ein llwyth. Yn yr amser rhwng myned un peilot a dyfod y llall bu'r digwyddiadau'n llawn perygl.

Yn ardal yr afon Plate y mae gan Natur ei ffordd ei hun i'ch rhybuddio fod storm yn briweddu. Geill yr wybren fod yn las, ond yn y pellter ymddengys cwmwl o faint dwrn dyn. Rhybudd ydyw i ddiogelu popeth ar y llong, cau drysau'r awyr, a rhaffo popeth symudol ar y dec. O wylied y cwmwl rhybuddiol gwelir fod ei faint a'i drwch yn cynyddu. "Pompero" ydyw ; y mae'r gair o'r un ystyr a'r gair "Tornado" yng ngogledd America. Y mae'n dreifio'r myrddiynau locustiaid sy'n ceisio dianc o'i flaen nes gwneud y dydd golau yn "ddiwrnod tywyll du, diwrnod cymylog a niwlog."

Digwyddodd dydd felly i ni yn yr angorfa. Ond cawsom ein rhybudd. Yn awr torrodd cynddaredd y "Pompero" arnom, a'r miliwn fflangellau'n ffrewyllu'r llong. Yn y dwndwr annaearol clywid cri, "Pob dyn ar y dec ; nid yw'r angorau'n dal ; yr ydym yn drifftio."

Newidiwn yr olygfa ; ehedwn ar adanedd amser i Ionor 1944. Criw llong ydym ninnau, yn "hwylio ar gefnfor bywyd." Gwelsom ac yr ydym yn gweld cynddaredd y "Pompero." "Nid yw'r angorau'n dal ; yr ydym yn drifftio." Er na chrochlefir hynny hwyrach, dyna'r sibrwd sydd oddifewn i bob un o'n heglwysi. Ond nid yw'r rhai sydd yn sibrwd na'r rhai sydd yn gweiddi yn

respondio i'r apel, "Pob dyn ar y dec." Y mae chwilio beiau yn waith rhwyddach na chwilio llwybrau. Rhwyddach yw beirniadu yn ddinistriol na gweithredu'n adeiladol. Nid yw'r gweiddi'n mynd i rwystro'r llong, yr ym ni'n aelodau o'i chriw, rhag drifftio i beryglon y creigiau. Pregethasom, dadleuasom dros hawl crefydd i fynedfa i mewn i fywyd ein cymdeithas. Da hynny, ond rhodder y pethau blaenaf yn gyntaf. Pa fodd y geill crefydd dreiddio drwy fywyd cymdeithas heb dreiddio'n gyntaf drwy fywyd y cartref. Ie, bywyd yr aelwyd, cofier hynny. Yno y mae allor Duw mewn gwirionedd. Dadleuwn eto dros hawl Duw i'w le yng nghanolfan y cartref. Cydnabyddwn mai Iesu ydyw'r Peilot.

Pa le y mae'r allor deuluaidd? Pa beth a ddigwyddodd i'r arferiad, yr arferiad iachusol hwnnw, o ymgynghori a'r Siart bob dydd? Y mae arnom angen cyfeiriad er mwyn penderfynu'r llywio. Y mae arnom angen Siart er mwyn penderfynu'r cyfeiriad. Rhaid inni wrth gyfarwyddyd y Peilot. Fe wŷr ef y llwybr i'r hafan. Ac fe wŷr ein Tad Nefol hefyd fod arnom ni angen y cymorth hyn. Gwyn ein byd pan fyddwn yn sylweddoli ei ddarpariadau ef.

Gwell crefydd ddwys na chrefydd boblogaidd. Gwell byw ar ein ffydd ein hunain na byw ar gefn ffydd rhywun arall. Oni adnewyddir ein ffydd y mae'n diflannu. Y peth pennaf mewn crefydd yw adnewyddu ac nid ymostwng. Sylweddoler hynny cyn taro ohonom yn erbyn y creigiau. Y syniad gwenwynol hwn mai gwaseidd-dra ymostyngol yw crefydd sy'n gyfrifol am y difaterwch a'r methiant i gario baich cyfrifoldeb oddifewn i'n heglwysi ac nid y trefniant na'r diffyg trefniant. Gwrandawn ar yr ysgrifennydd at yr Hebreaid—"Am hynny y mae yn rhaid i ni ddal yn yn well ar y pethau a glywsom, rhag un amser i ni eu gollwng hwy i golli,"—yn ôl cyfieithiad diweddar, "lest haply we drift away."

Meddyliau Crwydrad.

(O'm Dyddiadur).

Allтud o Gymru ydwyf, ac am dro beth bynnag yn treulio f'amser yn ninas enwoca'r byd. Nid oes angen dweud fod Cymru, ei phobl a'i phlant, ei dolydd breision a'i mynyddoedd noethlwm, cwmydd ei glo, a'r melinau sy'n malu'r dur yn agos at fy nghalon. Darllenais ysgrifau Julian yn yr *Inquirer*, "Look, Stranger," a phenderfynais innau grynhoi fy meddyliau crwydrad mewn dyddiadur, ac estyn fy nghroeso i Olygydd Yr Ymofynnydd ddethol ohonynt.

"The onward march of progress," medd teitl llyfr diweddar, gan gyfeirio at gynnydd mewn dulliau meddyginiaethol. Eithaf gwir. Ond celwydd noeth os cesglir oddiwrth hyn fod y byd yma yn well. Yn ôl Dr. Marrett, cynnydd mewn cariad yw'r unig gynnydd gwerth son amdano. Pa sail sydd dros fod yna gynnydd felly wedi cymryd lle? Yn enwedig mewn byd fel hwn ar adeg fel hon.

* * * *

Una arwr y llyfr hwn ynddo'i hun, medd Goldsmith yn ei Ragair i'r *Vicar of Wakefield*, dri cymeriad godidoca'r byd: offeiriad, tyddynwr, a thad.

* * * *

Pe buasem wedi aros gyda Ioshwa yn yr Hen Destament, medd un newyddiadur y dydd o'r blaen, onid gwell fuasai arnom heddiw? Mae'n wir iddo wneud camgymeriad dybryd wrth gredu iddo lwyddo perswadio'r haul i ymwrthod a throi o amgylch y ddaear. Ond gwnaethom ni gamgymeriadau lawer gwaeth oddiar amser Copernicws—Colwmbws yn bwriadu dod o hyd i Iapan ac yn darganfod yr Amerig, ceisio cludo trysorau Spaen trwy "ddrws y bac" a darganfod Rwsia. Gadewch i ni ddychwelyd at Ioshwa. Ni allwn—yn ffodus neu yn anffodus. Amhosibl dychwelyd hyd yn oed at yr Oesoedd Canol!

* * * *

Mae'n debyg bod bechgyn a merched sy'n medru Cymraeg yn y Fyddin yn cael cryn drafferth o hyd ynglyn ag ysgrifennu a derbyn llythyrau yn eu hiaith eu hunain. Meddyliasaom bod 'y cam hwn drosodd ers misoedd ond mae'n amlwg nad ydyw.

* * * *

Y mae'r Archesgob Downey ac eraill ymhlith y Pabyddion yn ceisio'u gorau glas i gael gwell manteision i Eglwys Rhufain nag a gaiff yn y Papur Gwyn ar Addysg. Bydd cynllun y Llywodraeth yn rhy gostus, meddant. Ac eto ar yr un pryd eu dadl yw y buasai'r cynllun yn costio'r Eglwys yn ormod o'r wlad yn rhy fach! A fyn y Pabyddion, yn sicr, yw cael y Llywodraeth i gymryd drosodd yr holl draul a'r costau am gadw a chynnal yr ysgolion Pabyddol ynghyd ag adeiladu rhai newydd, gan adael i'r Eglwys yr awdurdod ar bopeth arall.

* * * *

Ceir ambell wleidyddwr poblogaidd yn y dyddiau hyn yn gwneud ei orau i'n perswadio bod Imperialaeth wedi newid ei chroen erbyn hyn a'i bod mwyach yn barchus a chyfiawn. Cyn derbyn hyn rhaid i ni fel Cristnogion farnu a ydyw hawl cenedl (pa mor gryf bynnag y bo mewn arfau a gallu milwrol) ar genedl arall yn unol a Thadolaeth Duw a Brawdoliaeth Dyn.

Llundain. Ap Ioan.

"Briwsion" Mathias.

PIBONWY.

Dyma destun amserol iawn ym mis Ionor ynte? Fuoch chwi yn sylwi yn fanwl ar bibonwy erioed? Os naddo, y mae yn werth gwneud. Fe'm swynwyd gan yr enw yn un peth ac yn fwy na dim gan y creadur bach rhyfedd ei hunan. Ni fydd sôn amdano pan awn i'r gwely ond bore trannoeth mae'r pibonwy yn crogi yn berl gloyw, hir wrth fargod y tŷ, yn union fel petasai wedi dod o rhyw fyd arall.

Ni fûm ddigon dewr (*na gwresog o ran hynny*) i aros i weld sut mae'r pibonwy yn tyfu ond mae gennyf amcan go dda serch hynny sut mae pethau'n gweithio. Daw diferyn bach o ddŵr ar ei hynt dros y bargod gan oeri, oeri yn y rhew hyd oni chaledir ef yn bêl fach gron. Daw diferyn arall i ddilyn ac fe ddigwydd yr un fath iddo yntau, hyd oni fydd y diferyn bach cyntaf wedi gwisgo amdano filoedd o ddiferynion, a'r rheini i gyd yn ffurfio un pibonwy hardd.

'Rwy'n meddwl fod y Cristion yn tyfu rywsut yn yr un modd. Mae Rhyw Allu yn cydio mewn diferyn bach oddi mewn iddo, a'r un Gallu yn gwisgo rhagor a rhagor am y perlyn bach dechreuol. Dyna sut mae pob peth yn tyfu'n naturiol. Ofnaf mai pibonwy dilun iawn a gawsem pe ceisiem 'wneud' un drwy roi dŵr mewn math o fowld a'i rewi.

Mae'r un Gallu a rewodd y diferyn bach yn galed wedi ei gydio yn sâff wrth y bargod hefyd. Un peth arall sy'n rhaid cofio yw hyn, na fydd y pibonwy yn grisial loyw a phrydferth oni fydd pob diferyn bach o ddŵr yn lân.

Ystyriwch y pibonwy. . . . . .

* * *

Yr oedd John Jones yn mynychu'r capel yn gyson, ond yr oedd yn cyrraedd yn ddiweddar bob tro. Gwnaeth y gweinidog gamgymeriad dybryd un waith drwy gyfeirio ato fel y 'diweddar John Jones.'

* * *

Nid yw'r bobl sy'n rhoi ei bywyd mewn un funud fawr yn well na'r rheini sy'n rhoi pob munud mewn un bywyd mawr.

* * *

Byddwch wrth draed pawb ond o dan draed neb.

Parch. Philip Jones.

* * *

Diddanwch diwedd einioes
Yw byw ar waith bore oes.

Cadfan.

Pleser a Dyledswydd.

Eisteddai Hassan, oedrannus a doeth, yn ei ddrws pan oedd tri dyn ieuanc yn pasio mewn brys.

"A ydych yn dilyn rhywun, fy mhlant?" meddai.

"Yr wyf yn dilyn pleser," ebr yr hynaf.

"A minnau yn dilyn cyfoeth," ebr yr ail. "Ni cheir pleser ond gyda chyfoeth."

"A thithau?" gofynnai i'r trydydd.

"Yr wyf fi yn dilyn dyledswydd," meddai yn wylaidd.

Aeth pob un i'w ffordd.

Wrth ymdeithio daeth Hassan oedrannus ar draws tri dyn.

"Fy mab," meddai wrth yr hynaf, "ymddengys i mi mai tydi oeddet yn dilyn pleser. A oddiweddaist ef?"

"Naddo," oedd yr ateb. "Nid yw pleser ond lledrith sydd yn ymgilio fel yr agosheir ato."

"Ni chymeraist y llwybr iawn, fy mab."

"Sut y digwyddodd i ti?" gofynnai i'r ail.

"Nid yw pleser gyda chyfoeth," oedd yr ateb.

"A thithau?" gofynnai i'r ieuengaf.

"Fel y rhodiwn yng nghwmni dyledswydd," meddai, "rhodiai pleser o hyd wrth fy ochr."

"Felly y mae bob amser," meddai'r hen ŵr. "Os eir ar ôl pleser ni oddiweddir ef. Yr hyn a ddelir yw ei gysgod. Â pleser law yn llaw a dyledswydd, a chaiff y rhai a wna ddyledswydd yn gydymaith gymdeithas pleser."

O'r *Pelydryn.*

Cynghrair y Gwragedd.

Rhanbarth Ceredigion.

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yng Ngalltyplaca ar Hydref 30. Cymrwyd y rhannau defosiynol gan Mrs. Davies, a gweinyddwyd y Cymun gan y Parch. S. E. Bowen. Miss Bowen oedd yr organydd.

Llywyddwyd gan Mrs. Park Davies, ac yn ei haraith o'r gadair pwysleisiodd y ddyledswydd i gynorthwyo ein gilydd. Edrychai ar yr eglwys fel "ein cartref cyffredin," ac yn y tasc o adeiladu byd newydd y mae i fudiad fel ein Cynghrair ei bwrpas.

Cyflwynwyd cydymdeimlad yr aelodau i Mrs. Davies, Penybont a Miss Evans, Glandewi yn eu galar.

Ar wahoddiad Capel y Graig, Llandysul, a fynegwyd gan Mrs. Gwilym Evans, cynhelir y cwrdd blynyddol nesaf yno.

Ail-etholwyd y swyddogion ar gynnig Mrs. Davies, Teifi Hill, Mrs. Park Davies yn eilio. Etholwyd Miss Davies, Pantmoch yn is-lywydd am y flwyddyn nesaf.

Testun araith y Parch. J. Islan Jones, M.A. oedd "Beth a all yr eglwysi Saesneg ei ddysgu i ni, yr eglwysi Cymraeg ?" Dangosodd ragoriaeth eu trefn eglwysig, dwysder defosiynol eu gwasanaethau, prydferthwch eu celfyddyd a'u crefftwaith. Dangosodd hefyd mor boblogaidd yw rhai gwasanaethau arbennig, fel canu carolau a gwasanaethau tebyg.

Mynegwyd diolch i'r llywydd gan Miss Evans, Ffynnon Fair, ac ategwyd gan Mrs. Davies, Faerdre. I Miss Evans, Ffynnon Fair y mae'r dymuniadau gorau am flwyddyn o wasanaeth hapus yn y llywyddiaeth. Cyfeiriodd hithau, wrth gydnabod hynny, at bwysigrwydd y gwasanaeth cyhoeddus ac at ddiben yr adrannau—sef bywiocau bywyd crefyddol yr eglwysi.

Pleser mawr i'r aelodau oedd gweld cymaint o weinidogion yn bresennol, ac ar ddiwedd cwrdd llwyddiannus eisteddodd yr ymwelwyr i wledd o de a baratowyd yn haelionnus gan yr adran leol.

K.J.

"Dwy Stori mewn Rhigwm."

BARN Y PARCH. ALWYN THOMAS, B.A., DYSERTH, AR OL BWRW GOLWG DROS Y PROFLENNI.

Cefais flas wrth ddarllen "Dwy Stori mewn Rhigwm," gan Dewi Hiraddug. Dyma rywbeth newydd yn llenyddiaeth Cymru . . . Dywaid yr awdur, ar y dechrau, "nad cais a wneir . . . i gynhyrchu dim byd ar lun 'barddoniaeth' na hyd yn oed 'brydyddiaeth'." Rhigymu i amcan a wna. Yr amcan hwnnw, hyd y gwelaf fi, ydyw diddori ; a llwyddodd i wneud hynny. Mwy, fe ddwg i gof hen chwedloniaeth ardal a chefn gwlad—straeon â sawyr yr oes o'r blaen arnynt. Ac y mae gwerth yn y gyfrol pe na bai er mwyn dim ond cadw'r hen chwedlau hyn rhag mynd i ddifancoll ; oherwydd y mae i chwedlau gwlad eu gwerth a'u pwrpas. Gwn yn bur dda am Goed yr Ynys a'r Pentre Mawr, ond ni chlywais y storïau amdanynt nes darllen y llyfr hwn. Cyfoethogodd felly draddodiad ardal Dyserth a Gwaun Llanelwy. Hwyrach y bydd cyhoeddi'r llyfr yn symbyliad i rywun arall gloddio am hen chwedlau ei ardal a'u dwyn eto i oleuni dydd . . . Y mae digon o le i feirniadu, ac eddyf yr awdur hynny. Eithr nid ei amcan ydoedd creu rhywbeth coeth ac ysgolheigaidd, ond yn hytrach diddori gwerin ei wlad . . . Yma ac acw yn y storïau, fe geir rhai geiriau na wyr llawer o Gymry'r oes hon, efallai, mo'u hystyr ; rhoddwyd geirfa ar y diwedd i'w hegluro, a chyfoethocach yw'r iaith oherwydd hynny . . . Stori am Ysbryd yw'r gyntaf, a'r ffordd ryfedd a gymerwyd i'w ddistewi, a chanlyniadau hynny. Sylfaenwyd yr ail ar ofergoeliaeth hen ffarmwr yn ofni wrth glywed ceiliog yn canu yn y nos,—ac wrth geisio'i ddistewi daeth trychineb mawr iddo yntau . . . Rhoddwyd cymeriadau i'r straeon, ac y mae hynny'n eu gwneud yn fwy diddorol nà phe buasent yn rhigwm hir yn y trydydd person. Doniol iawn hefyd yw'r darluniau . . . Llyfr i'r werin ydyw hwn. Beirniaded y crachfeirniaid a'r hunan-ddoethion faint a fynnont.

Marwgofion.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 11, claddwyd gweddillion WILLIAM HOWELLS, Trealaw, ym mynwent Pantydefaid. Bu farw Rhagfyr 11, yn 62 mlwydd oed. Pregethwyd yn y Capel gan y Parch. D. Gwilym Evans, yr hwn hefyd a wasanaethodd ar lan y bedd. Gwelwyd nifer fawr o gyfeillion y teulu yn y Capel. Estynnwn i Mrs. Howells ag i'w dau fab prydferth ag hawddgar ein cydymdeimlad dwys yn y brofedigaeth lem; rhoddent eu hyder yn Nuw y Perffaith Gariad.

Ar ddydd Sul, Rhagfyr 12, bu ESTHER DAVIES, Pantrhwch, Llanwnen farw yn Ysbyty Aberaeron, ar ddydd ei phenblwydd yn 83 oed. Collodd ei golwg ers tro, a thrwy ryw anffawd llosgodd yn ofnadwy. Bu'r brofedigaeth yn ormod iddi. Arferai fynychu Capel y Groes, ond ni allai fynd i unman ers tua saith mlynedd. Gwraig serchog, garedig, lednais ydoedd. Claddwyd hi y dydd Iau wedyn yn Eglwys Llanwnen, y Parch. D. Evans, Cwmiago ac A. J. Martin yn gwasanaethu yn y tŷ, a'r offeiriad, y Parch. S. Morgan yn yr Eglwys.

Collodd Capel y Graig un o'i haelodau hynaf drwy farwolaeth HANNAH DAVIES, Brohedyn, Rhagfyr 17 yn 71 blwydd oed. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Pantydefaid, Rhagfyr 20. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parch. Richard Morris; pregethwyd yn y Capel gan y Parch. E. O. Jenkins, a gwasanaethwyd ar lan y bedd gan ei gweinidog. Dynes serchus, diwyd a diniwed oedd ein chwaer ac iddi air da fel cymydog a chyfaill. Estynnwn ein cydymdeimlad a'r perthynasau.

Ar Dachwedd 22, 1943 yn ddisymwth, MADGE BOWEN, priod Mr. D. L. Bowen, 203, Swansea Road, Trebanos, yn 48 mlwydd oed. Nid cedd mewn iechyd ers amser, ac yr oedd trymder clyw yn brofedigaeth lem iddi. Dynes dawel, dymunol a mwyn ei hanian ydoedd, ac yr oedd iddi barch mawr ymhob man. Yr oedd yn aelod selog yng Nghapel Hebron, Clydach, ond teimlai'n gartrefol hefyd gyda'i phriod yng Nghapel y Graig. Cydymdeimlir yn fawr a Mr. Bowen, ei rhieni, brodyr a chwiorydd, a chysylltiadau'r teulu. Claddwyd y dydd Gwener dilynol ym mynwent Siloam Pontargothi, yr angladd yn anghyoedd. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parchn. D. John a J. J. Roberts (Gweinidog Hebron), ar lan y bedd gan y Parchn. J. J. Roberts, J. D. Jones, Curwen Davies, a gweinidog y lle.

Ar Dachwedd 24, 1943, wedi cystudd byr, JOSHUA DAVIES, 37, Grove Road, Pontardawe, yn 69 mlwydd oed. Dyn a feddai ar gynheddfau cryfion ydoedd; yn dal ac unionsyth, yn gadarn a golygus, yn bictiwr o iechyd, ond ym mis Awst diwethaf dechreuodd glafychu, ond ni freuddwydiodd neb fod ei farw mor agos. Ofer ydoedd celfyddyd y meddyg, a bu yntau farw mewn ysbyty preifat yn Abertawe. Breintiwyd ef ag aelwyd gysurus, a bu yntau'n benteulu rhagorol. Pleser oedd ei ymddiddan a'i gwmpeini. Ond bylchwyd yr aelwyd honno'n fawr y blynyddoedd diwethaf hyn, ac ni ddaw Angau byth i aelwyd gysurus heb fod ei gysgod yn aros arni. Colli Bessie yn hoen ac asbri bywyd, colli Mrs. Davies, mor bwyllog ac mor ddoeth. Ni chreithiodd y clwyfau. Ar ôl ar yr aelwyd yn awr nid oes ond un ferch a'i phriod (Mr. J. O. Morgan, Cyfreithiwr, Pontardawe), a Beryl. Cyrhaeddodd Mr. Davies safle uchel yn niwydiant yr ardal, arolygydd y melinau yn yr Alloy Works, ac yr oedd gair da iddo gan weithiwr a meistr. Er mai aelod o'r Eglwys Wladol ydoedd, bydd ei le'n wag iawn yng Nghapel y Graig, lle yr oedd yn fynychydd cyson gyda'i deulu. Yn y gynulleidfa yr oedd yn ddyn llawn, ac yn ei waith a'i fywyd yn ddyn o

egwyddor fawr. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent Eglwys Sant Pedr Pontardawe yng ngwydd tyrfa fawr o ffrindiau a chydnabod. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. J. D. Jones a W. T. Owen ; yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Canon J. J. Hughes, y Parchn. Evan Davies, Wendell Thomas. Yn bresennol hefyd yr oedd y Parchn. D. John, J. Derlwyn Evans, ac Idwal Jones. Gyda'r ferch a'i theulu, a chyda'r perthynasau lluosog y mae ein cydymdeimlad dyfnaf.

Ar Ragfyr 10, 1943, yn 158, Swansea Road, Trebanos, ELIZA ANN DAVIES, yn 86 mlwydd oed. Treuliodd y rhan helaethaf o'i bywyd yn ffermdy Gellionnen, a diwyd a gweithgar y bu. Gwelodd godi ei phlant i safleoedd anrhydeddus. Ond araf a blin oedd ei cham yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Caru bod ar yr aelwyd ydoedd, ond yno yr oedd ei phresenoldeb yn llawn a'i dwylo'n ddiwyd. Er blinder corff yr oedd ganddi gof byw a meddwl craffus. Hyfrydwch oedd gwrando arni, a hithau'n son am ddyddiau pryd yr oedd mynd ar gyrddau adrodd a chanu yr yr Onnen Fawr. Dyna fwyniant plant Gellionnen 'slawer dydd. I gylch eang o Undodiaid, nid yn unig ym Morgannwg ond yng Ngheredigion, bydd ei henw yn fwy adnabyddus fel gweddw David Davies, Gellionnen, dyn arbennig ei frwdfrydedd dros ein hachos crefyddol, ac er ei gladdu ugain mlynedd yn ôl erys ei goffadwriaeth eto'n annwyl. Gwir yr ysgrifennodd un amdano—"Cadwodd yr awen gwmni cynnes iddo, a lluniodd benillion pert. Canodd ganeuon ac unawdau rif y gwlith. Yn y cylch crefyddol y blodeuodd ef geinaf . . . Crefydd o bopeth yn y byd oedd yr eilun agosaf at ei galon. Aberthodd yn ddiarbed, i ormodedd ar brydiau, dros yr achos a garodd gymaint. A bydd i gynnyrch ei fywyd gyda chrefydd aros yn hir ar gof a chadw yng nghynulleidfa'r saint." Dyna gipdrem ar gartref Mrs. Davies. Claddwyd y dydd Llun dilynol wrth Gellionnen, yr angladd yn anghyoedd, a'r Parchn. J. D. Jones a D. John yn gweinyddu. Cydymdeimlir a'r ddau fab a'r tair merch sydd mewn galar.

Nodion yr Eglwysi.

TREBANOS—Er budd y drysorfa sy'n darparu cysuron i aelodau'r gynulleidfa yn y lluoedd arfog perfformiwyd y ddrama "Awel Dro" gan gwmni adran Amanw ar Dachwedd 18. Y mae'r cwmni hwn bellach yn "hen ddwylo" ac yn fawr ei glod. Cafwyd noson bleserus iawn, a'r neuadd yn llawn hyd y drws.

Ar Ragfyr 2, i'r un pwrpas, gwrandawyd ar gyngerdd rhagorol a drefnwyd gan y Mond Glee Party. Yr arweinydd oedd Mr. Morgan Lewis, a chynorthwywyd. y parti gan Madam Powell Edwards, Miss Mary Edwards ('cellist), Mri. W. Walters, Sid Grey, Silas Evans, Arthur Lewis, Howard Davies, a W. Clement Y *compere* oedd Mr. W. George David.

LLANDYSUL.—Cynhaliwyd gwyl dê flynyddol Ysgol Sul y Graig, brynhawn ddydd Calan, pan daeth nifer dda ynghyd i fwynhau y wledd ardderchog,—rhodd garedig Mrs. Davies, Y Fedwen. Diolchwyd yn gynnes i Mrs. Davies am ei charedigrwydd a'i haelioni. Yn yr hwyr cafwyd cyngerdd gwych iawn gan Barti Bwlchyllan—rhaglen gyfoethog, glân a diddorol.

CRONFA'R YMOFYNNYDD.—Daeth i law y Trysorydd yn ystod mis Rhagfyr : Brondeifi, £1 : 7 : 0 ; Mrs. Mary Williams, 7, Darkgate Street, Aberystwyth, £1 : 0 : 0.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undoda dd Gymraeg, yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N., ar y Sul cyntaf o'r mis am 4.15 p.m.

O bryd i bryd y mae'r eglwys fach wedi derbyn rhoddion gwerthfawr oddi wrth gyfeillion caredig iawn. Ni bu rhodd mwy derbyniol erioed na'r organ fach hyfryd a roddwyd inni'n ddiweddar gan Mr. Gwilym Davies, B.A., a'i chwaer, Miss Megan Davies, a'i fam, Mrs. Davies, Woodford. Ni allwn ddweud dim ond "Diolch yn fawr iawn, iawn" wrthynt ill tri, gan obeithio y bydd i'n heglwys fach fod yn deilwng o'r fath garedigrwydd ; boed inni'n awr dalu mwy o sylw i ganiadaeth y cysegr, modd y caffo'r anrheg ardderchog ei defnyddio'n well er clod a mawl y Duw byw. Pleser oedd gweled nifer gweddol yn bresennol yn ein gwasanaeth diwethaf, pan roes y Parchedig Noel James, B.A. inni bregeth lawn o sylwadau pwysig ynglyn a'r amser presennol a'r dyfodol. Dymunwn iddo ef a Mrs. James (a oedd hefyd yn y gwasanaeth) bob hwyl yn eu gyrfa newydd. Yr oeddym yn falch iawn o glywed bod rhai o'n haelodau wedi cael gair oddi wrth Mr. Jack Lewis, ai fod yntau'n iach a hwylus.

Mr. W. Vaughan Lewis, M.A., fydd yn gwasanaethu inni ar y Sul cyntaf o Chwefror.

Adolygiad.

Education in World Ethics and Science. Sir Richard Gregory, Bart., F.R.S. Conway Memorial Lecture 1943. Watts. 1/-.

Traddodir y Conway Memorial Lecture yn flynyddol. Ar restr y rhai a fu'n traddodi'r ddarlith y mae Mr. H. G. Wells, ac fel rhai o bregethwyr Cyrddau Mawr fe bregethir yr un bregeth gan Mr. Wells dro ar ôl tro. Fel ei bregethau ef y mae hon, pregeth Syr Richard Gregory, yn werth ei phregethu o hyd—hyd nes y delo'r dydd pryd na bydd ei heisiau mwyach, am y bydd prytynni wedi'i hysgrifennu yng nghalonnau dynion, megis cyfamod Ieremia.

Erbyn heddiw clywir yr un bregeth, neu ei thebyg, gan lawer un, athrawon coleg ymhlith eraill. Yn wir ceir un pen o'r bregeth yn awr, yng nghanol rhyfel, gan ambell wleidyddwr—yn enwedig o'r Unol Daleithiau. Cymharer llyfr newydd Wendel Wilkie, *One World*, ag areithiau y Dirpwy-lywydd Wallace. Ond athro coleg yw Syr Richard Gregory, ysgrifennwr y llyfryn hwn.

Y mae ein byd i raddau helaeth yn uned economaidd ar hyn o bryd. Nid rhaid ond cyfeirio at frecwast dyn bob bore er mwyn sylweddoli hyn. Y mae hefyd yn uned gyda golwg ar bellter (distance). Er enghraifft, y mae Tokyo ac Efrog Newydd yn agosach i Lanbedr heddiw nag ydoedd Llundain hanner can mlynedd yn ôl.

Ond er ein bod yn ysgwyd llaw ag India wrth gael ein te oddiyno bob dydd, ac er bod Llandysul yn nes i Hong Kong heddiw nag ydoedd i Lerpwl gan mlynedd yn ôl, eto'i gyd ni ellir dweud bod dynion led-led y byd yn frodyr i'w gilydd. Hynny yw, nid ydym ar yr un lefel ym myd Moesog ag yr ydym ym myd Economeg a Phellter. Wel—am Wyddoniaeth, y mae'n gydwladol yn yr un ystyr ag y mae Miwsig.

Amcan y ddarlith hon, felly, yw ein dysgu sut y gellir dod a thrigolion y byd i gytgord drwy addysg mewn Moeseg a Gwyddoniaeth. I ysgrifennwr yr adolygiad byr hwn y mae'r cyntaf—addysg mewn Moeseg (ac, fe ychwanega, Grefydd) yn bwysicach o'r ddau. Rhaid iddi ddod i hyn ryw ddydd cyn y sicrheir heddwch a brawdoliaeth byd. Gorau po gyntaf, felly, y daw. A gorau po fwyaf o ysgrifennu a darllen a fydd ar y testun hwn er mwyn ein haddysgu, ac addysgu ein plant, a'u plant hwythau yn y gelfyddyd o fyw fel dinasyddion byd. Y mae darlith Conway Syr Richard Gregory am 1943 yn help i'r cyfeiriad hwn.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.